

Cyngor Cymuned Llanycil

Cyfarfu'r Cyngor Nos Fawrth, Hydref 9fed 2018 yn Neuadd Maesywaen. Yn bresennol oedd Gwynedd Jones (Cadeirydd), Geraint Jones, Huw Charles, Gwynfryn Williams a'r clerc.

Derbyniwyd ymddiheuriadau gan Jean Roberts, Euros Puw, Arwel Davies, Geraint Davies, Rhys Richards a'r Cyng. Elwyn Edwards

Cydyndeimlwyd a Gwynedd Jones a'r teulu yn dilyn eu profedigaeth yn ddiweddar.

i) Darllenwyd cofnodion cyfarfod mis Medi a chafwyd yn gywir.

ii) Datgan Buddiant.

Ni chofnodwyd unrhyw fuddiant.

iii) Materion yn codi o'r cyfarfod diwethaf.

a) Dewis cynrychiolwyr Partneriaeth Penllyn/Cwmni Pum Plwy Penllyn.

Gofynnwyd i'r clerc gadarnhau mae Rhys Richards fyddai'n cymryd lle Arwel Davies ar y pwyllgorau.

b) Ymateb i'r cwynion a basiwyd ymlaen i Cyngor Gwynedd:-

i) Llwybrau cyhoeddus - cafwyd cadarnhad y byddai pontydd 'Pentre Cerrig', Parc a Tŷ Hen, Rhyduchaf yn cael eu archwilio. Cafwyd cadarnhad hefyd fod y swyddog wedi gofyn i'r perchennog tir greu safle lletach i'r biniau ysbwriel er mwyn darparu mwy o le i gerddwyr ddefnyddio'r llwybr troed yng ngwaelod y pentref, Rhyduchaf.

ii) Coed cyll yn gordyfu i'r ffordd rhwng safle dwr Rhyduchaf a Gwernfeistrol – cafwyd cadarnhad fod y swyddog wedi trefnu i'r gweithlu docio'r coed yn nol.

iv) Gohebiaeth.

Derbyniwyd yr ohebiaeth ganlynol:-

a) Cyngor Gwynedd

i) Cais i ddsbarthu posteri i hyrwyddo'r 'Grantiau Cist Cymunedol'.

iii) Derbyniwyd gwybodaeth am eu harolwg cyhoeddus 'Pa wasanaethau sy'n bwysig i chi?' Dosbarthwyd yr wybodaeth i'r cynghorwyr gwblhau'r arolwg. Nodwyd hefyd fod cyfarfod cyhoeddus yn Ysgol y Berwyn ar y 9/10/18.

b) Un Llais Cymru

i) Llythyr yn ein hysbysu bod cyfarfod nesaf Pwyllgor Ardal Meirionnydd yn cael ei gynnal yn Nolgellau ar y 26/09/18

ii) Cwrs hyfforddiant 'Rheoli Gwybodaeth' yn Wrecsam ar y 11/10/18 - cytunwyd i beidio cynnal cyfarfod ym mis Tachwedd ac i'r clerc ddefnyddio'r oriau gwaith i fynychu'r cwrs Cytunwyd y gallai'r clerc hawlio ei chostau teithio.

c) Parc Cenedlaethol Eryri

i) Cynllun Datblygu Lleol Eryri – ymgynghoriad ar y materion a godwyd o'r archwiliad cyhoeddus.

ch) Post Brenhinol.

i) Cais i ddsbarthu posteri i hyrwyddo eu gwaith o godi ymwybyddiaeth o lythyrau sgâm.

d) Ymddiriedolaeth Cofebion Rhyfel.

i) Roedd yr Ymddiriedolaeth wedi derbyn cwyn am gyflwr cofeb rhyfel Arenig Fawr ac roedd y clerc wedi eu cyfeirio at sylw'r Cyng. Dilwyn Morgan a oedd yn cymryd camau i osod cofeb newydd ar y safle.

dd) Llywodraeth Cymru

i) Cais am wybodaeth i'w cynhorthwy gyda'u hymgyngoriad i 'Heolydd sydd heb eu mabwysiadu yng Nghymru'.

v) Ceisiadau Cynllunio.

Nid oedd unrhyw geisiadau i'w trafod.

vi) Materion Ariannol.

a) Ffurflen Archwiliad Blynnyddol.

Derbyniwyd yr Adroddiad yn nol gan yr archwilwyr allanol gyda'r cadarnhad ei fod yn gywir. Adolygwyd y materion a godwyd, a gofynnwyd i'r clerc gysylltu'n ôl gyda'r archwilwyr i ofyn am eglurhad pellach. Cadarnhaodd y clerc fod yr 'Rhybudd o ddiwedd yr archwiliad' wedi cael ei osod ar y wefan ac yn y neuadd.

b) Adroddiad Ariannol (monitro derbyniadau a thaliadau)

Cyflwynodd y clerc yr adroddiad ariannol i ddiwedd Medi a chafwyd yn gywir.

c) Cytunwyd i dalu'r canlynol:-

Cyflog a Chostau'r Clerc (Gorff-Medi), TWE.

ch) Hawlio ad-daliadau TAW.

Derbyniwyd cyfarwyddiadau am y drefn newydd ar-lein i adhawlio TAW.

vii) Materion lleol.

Nid oedd unrhyw fater i'w drafod.

**Cynhelir y Cyfarfod nesaf ar Nos
Fawrth, Rhagfyr yn Neuadd 11eg
Maesywaen am 8.00 y.h.**